Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd:

# Ffydd yn y byd Ffermio - Sut y mae grwpiau ffydd yn ymateb i ffermwyr a gweithwyr amaethyddol sydd mewn angen

Dydd Mercher 19 Gorffennaf rhwng 12.00 a 13:15 yn Ystafell Briffio'r Cyfryngau, y Senedd

**Yn bresennol:**

1. Carol Wardman, Cynghorydd Esgobion ar yr Eglwys a Chymdeithas, yr Eglwys yng Nghymru
2. Claire Brosnan, Cydlynydd Gofal Ysbrydol ar gyfer Marie Curie
3. Darren Millar AC (Cadeirydd)
4. Gareth Davies, Swyddog Gweithredol ar gyfer Tir Dewi (Siaradwr)
5. Gareth Hiller, Gweithiwr Datblygu ar gyfer Brigâd y Bechgyn
6. Haris Malik, Cymdeithas Foslemaidd Ahmadiyya Caerdydd
7. Jim Stewart, Swyddog Polisi Cyhoeddus Cynghrair Efengylaidd Cymru (cofnodwr)
8. Mavis Harris, Cardiff Watch
9. Nathan Gill AC
10. Paul Davies AC
11. Sally Thomas, Swyddog Eciwmenaidd ar gyfer Cytun
12. Simon Wall, staff Nathan Gill AC
13. Stanley Soffa, Cadeirydd Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru

**Ymddiheuriadau:**

1. Abu Najmi, Cadeirydd Grŵp Cydlyniant Cymunedol Caerdydd
2. Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn
3. Andrew Misell, Cyfarwyddwr Alcohol Concern Cymru
4. Carys Moseley, Eglwys Bresbyteraidd Cymru
5. David Emery, Swyddog Materion Cyhoeddus Byddin yr Iachawdwriaeth, Cymru
6. David Forward, Eglwys Iesu Grist a Saint y Dyddiau Diwethaf
7. Elfed Godding, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cynghrair Efengylaidd Cymru
8. Ian Govier, Eglwys Iesu Grist a Saint y Dyddiau Diwethaf
9. John Kay, Llysgennad Cymru ar gyfer Transform Work UK
10. Karen Davies, Cyfarwyddwr Purple Shoots
11. Llyr Gruffydd AC
12. Peter Noble, Caplan Arweiniol ar gyfer Bae Caerdydd
13. Philip Manghan, Cynghorydd ar gyfer Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yng Nghymru
14. Rheinallt Thomas, Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
15. Richie Paines, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer Heddlu De Cymru

**Cofnodion:**

1. Agorodd Darren Millar AC y cyfarfod a chroesawodd pawb.

2. Rhoddodd Darren ddiweddariad o ran ddigwyddiadau diweddar sy'n gysylltiedig â ffydd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys lansio *Gobaith i'r Dwyrain Canol* Cymru a gwylnos a gynhaliwyd y tu allan i'r Senedd mewn ymateb i ymosodiadau terfysgol diweddar yn y DU. Mynegodd hefyd fwriad i drefnu cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd ar *ofal ysbrydol* yn y flwyddyn newydd.

3. Cyflwynodd Darren Gareth Davies, Swyddog Gweithredol ar gyfer Tir Dewi, a siaradodd am y gwaith y mae Tir Dewi yn ei wneud o ran helpu ffermwyr a gweithwyr amaethyddol, yn bennaf yn siroedd Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

4. Yna cadeiriodd Darren drafodaeth ar waith Tir Dewi, gan arwain at y camau gweithredu canlynol:

    a. Gareth Davies i gasglu gwybodaeth am sefydliadau ledled Cymru sy'n gwneud gwaith tebyg i Tir Dewi. Bydd Gareth yn anfon manylion at Darren Millar AC, ac yna bydd y wybodaeth honno'n cael ei e-bostio at Aelodau'r Cynulliad ac at restr bostio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd.

    b. Darren Millar AC i gyflwyno cwestiynau i Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar:

        a. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau megis Tir Dewi a'r Rhwydwaith Argyfwng Ffermio er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau o'r fath ar draws Cymru?
        b. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i gefnogi anghenion hyfforddi a datblygu'r rhai sy'n gwirfoddoli ar gyfer sefydliadau megis Tir Dewi a'r Rhwydwaith Argyfwng Ffermio?

5. Caeodd Darren y cyfarfod a dywedodd y byddai e-bost yn cael ei hanfon at yr aelodau unwaith y bydd dyddiad a phwnc wedi ei benderfynu ar gyfer y cyfarfod nesaf.